

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	12 Ebrill 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc/ Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant)
Awdur yr adroddiad	Rhiain Morrille
Teitl	Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu (awdurdod lleol) Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi bodoli ers 2014 ac wedi galluogi newid a gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau mabwysiadu ar draws Cymru. Trwy CLILC, mae cynigion wedi'u datblygu i ymestyn strwythur llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ymgorffori dull cenedlaethol at wasanaethau maethu penodol trwy Faethu Cymru. Mae cyfreithwyr CLILC wedi drafftio Cytundeb Cyfreithiol Cyd-bwyllgor i'w lofnodi gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae'r Cytundeb yn cynnwys Cynllun Dirprwyo ffurfiol gyda Chyd-bwyllgor yn darparu'r mecanwaith ar gyfer yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni rôl weithredol a goruchwyliol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cytundeb i lofnodi'r Cytundeb Cyd-bwyllgor ar gyfer y Cyd-bwyllgor arfaethedig. Bydd cytuno â'r cynigion hyn, a lofnodi'r Cytundeb Cyd-bwyllgor, yn rhoi cydweithrediad Cyngor Sir Ddinbych yn y trefniadau cydweithio hyn ar sail ffurfiol. Mae'r Cytundeb yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer cynnal, a darparu, swyddogaethau cenedlaethol sy'n cefnogi ac yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau mabwysiadu a maethu. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Cyd-bwyllgor yn Atodiad 3.

2.2. Gofynnir i Awdurdodau Lleol lofnodi'r Cytundeb ar y Cyd a'i ddychwelyd i CLILC erbyn 31 Mawrth 2022. Bydd angen i bob awdurdod lleol enwebu aelod o'u Gweithrediaeth/Cabinet i fod yn aelod sy'n pleidleisio ar y Cyd-bwyllgor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y cynigion ar gyfer datblygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymru, gan ei fod yn cymryd cyfrifoldeb dros Faethu Cymru, yn cael eu mabwysiadu.
- 3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu cefnogaeth ar gyfer y Cytundeb Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru ac yn cytuno bod yr awdurdod yn llofnodi'r cytundeb.
- 3.3. Bod y Cabinet yn enwebu, yn ffurfiol, eu cynrychiolydd ar y Cyd-bwyllgor.
- 3.4. Bod datblygu'r dull cenedlaethol, dirprwyo llywodraethu cysylltiedig, a threfniadau craffu lleol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor Llawn.

4. Manylion yr adroddiad

Y Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu (Awdurdod Lleol) Cymru.

- 4.1. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi bodoli ers 2014 ac wedi galluogi newid a gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau mabwysiadu ar draws Cymru. Cytunwyd ar ei strwythur a'i lywodraethu trwy drefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan yr holl gynghorau bryd hynny. Arweiniodd adolygiad yn 2018 at gynigion i symleiddio llywodraethu a gwella atebolrwydd. Mae rhai o'r rhain e.e. creu Bwrdd Llywodraethu ar y Cyd (yn dod â'r Grŵp Cyngori a'r Bwrdd Llywodraethu ynghyd fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth) a Chytundeb Partneriaeth newydd i ddisodli'r model gweithredol gwreiddiol wedi'u rhoi ar waith yn barod.
- 4.2. Penderfynodd cyngor cyfreithiol a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), er mwyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithredu'n effeithiol ar ran bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac er mwyn cael trefniadau cynnal cadarn gyda'r awdurdod cynnal ar gyfer y swyddogaethau cenedlaethol a galluogi (Caerdydd), bod angen cydweithrediad ffurfiol rhwng

awdurdodau lleol Cymru. Y dewis a ffeirir gan CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru oedd y dylid gwneud hyn trwy Cyd-bwyllgor.

- 4.3. Ers 2015, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r tîm canolog wedi bod yn cefnogi gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol i greu trefniadau cydweithio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol tebyg i wella gwasanaethau maethu Cymru, ond nid drwy greu gwasanaeth maethu cenedlaethol. Mae Maethu Cymru bellach wedi codi o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol a bydd yn cefnogi ystod ddiffiniedig o swyddogaethau maethu sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw gofalwyr maeth yr awdurdod lleol. Drwy gydol yr amser, roedd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, fel cyrff arweiniol, eisiau i'r swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer maethu gael eu cysylltu â swyddogaethau cenedlaethol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i leihau dyblygu a chostau yn ogystal â gwneud y mwyaf o wydnwch, hyblygrwydd a hirhoedledd ar draws y ddwy swyddogaeth.
- 4.4. Mae'r Cyd-bwyllgor arfaethedig a'r cytundeb sy'n ei danategu wedi'u hystreyn i gynnwys Maethu Cymru yn ogystal â'r capasiti a'r swyddogaethau ar gyfer cydlynid cenedlaethol a galluogi trwy Dîm Canolog ar y cyd. Mae llunio cysylltiad â'r Cyd-bwyllgor yn hanfodol ar gyfer Maethu Cymru o ystyried y diffyg sail deddfwriaethol ar gyfer cydweithrediad o'r fath ar gyfer gwasanaethau maethu.
- 4.5. Mae'r strwythur llywodraethu arfaethedig yn cael ei gyflwyno ar ddiagram gyda naratif yn Atodiad 1. Bydd y Cyd-bwyllgor cenedlaethol, ar ran y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn ymarfer ei bwerau ar gyfer darparu'r trefniadau cydweithio ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymru ac ar gyfer Maethu Cymru. Bydd yn cynnwys Aelodau'r Cyngor yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn.
- 4.6. Mae cyfreithwyr CLILC wedi drafftio cytundeb cyfreithiol Cyd-bwyllgor i gael ei lofnodi gan bob un o'r 22 awdurdod lleol; mae hwn bellach yn barod i symud ymlaen ac ar gael ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae hwn hefyd yn cynnwys Cynllun Dirprwyo ffurfiol a darpariaeth ar gyfer y cytundeb ffurfiol gyda'r awdurdod lleol cynnal ar gyfer swyddogaethau cenedlaethol.

4.7. Bydd y Cyd-bwyllgor yn darparu'r mecanwaith ar gyfer yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni rôl weithredol a goruchwyliol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru. Bydd yn cymeradwyo / derbyn:

- Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru;
- Y rhaglen waith flynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru;
- Y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Cyfarwyddwr a gwaith cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru; a'r
- Cytundeb, ac unrhyw newidiadau i'r cytundeb, ar gyfer yr awdurdod cynnal sy'n cefnogi Swyddfa'r Cyfarwyddwr a gwaith cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

Isadeiledd Cenedlaethol

4.8. Cynigir strwythur gweithredol sydd, o dan y Cyfarwyddwr, â swyddogaethau arweiniol ar wahân ar gyfer mabwysiadu a maethu ond â swyddogaeth busnes a galluogi ar y cyd yn cefnogi'r ddau (Atodiad 2). Mae'r amrywiaeth o swyddogaethau a fydd yn cael eu cynnal yn cael ei ddisgrifio yn Atodiad 2 gyda strwythur staffio o 9.5 staff c.ll.a (yn cynnwys y Cyfarwyddwr).

4.9. Darperir y cyllid craidd ar gyfer swyddogaethau cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru gan haen uchaf y Grant Cynnal Refeniw sydd ar gael drwy CLILC. Mae'r dyraniad hwn, sydd ar hyn o bryd yn £473 mil y flwyddyn ar gyfer mabwysiadu a £400 mil y flwyddyn ar gyfer maethu, yn amodol ar gytundeb y pwyllgor CLILC perthnasol bob hyn a hyn. Mae Maethu Cymru wedi cael cyllid grant Llywodraeth Cymru hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 i ariannu dibenion penodol, mae hyn yn £573 ar gyfer 2021/22 gan leihau ychydig ar gyfer 2022/23. Er bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar gael i fabwysiadu, mae hwn yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar gyfer darparu gwasanaeth uniongyrchol trwy'r strwythur rhanbarthol. Mae adnoddau ar gael yn nyraniad CLILC Maethu Cymru a chymorth grant Llywodraeth Cymru Maethu Cymru sy'n rhannol ariannu swyddi ar sail ranbarthol i helpu gweithgareddau awdurdod lleol yn uniongyrchol.

4.10. Cyfanswm cost y strwythur cenedlaethol arfaethedig yw £586,384 ar gyfraddau cyflog 2021/22. Mae cyfanswm y gyllideb graidd sydd ar

gael ar draws Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru ar gyfer 2021/22 tua £1,449,000 er hynny, mae dros hanner ffrwd gyllido Maethu Cymru yn amodol ar amodau grant LLC at ddibenion penodol fel y dangosir uchod.

- 4.11. Mae'r strwythur yn fforddiadwy hyd at ddiwedd cyfnod Grant Llywodraeth Cymru (31.03.23) ac nid oes disgwyl y bydd cynghorau unigol yn mynd i gostau ychwanegol mewn perthynas â'r gweithrediadau hyn yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae pwysau ar gyllidebau staffio a gweithredu ar gyfer y Gymdeithas Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru y tu hwnt i hynny. Mae'r pwysau ariannol wedi'u codi gyda Llywodraeth Cymru, ac mae gwaith yn dechrau i ystyried sut i ddatrys hyn y tu hwnt i'r cyfnod cymorth grant presennol. Bydd datrys hyn yn gofyn am ymrwymiad y Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru i sicrhau trosglwyddiad cynaliadwy ac a ariennir o'r Grant.

Ymgysylltu â Budd-ddeiliad

- 4.12. Mae aelodau'r awdurdod lleol wedi cael gwybod am yr hyn sy'n digwydd drwy gydol yr amser drwy CLILC, yn fwyaf diweddar ym mis Medi 2021 drwy Rwydwaith Aelodau'r Cabinet (Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a'r Cyngor CLILC.
- 4.13. Mae Bwrdd Llywodraethu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Penaethiaid Arweiniol Gwasanaethau Plant Maethu Cymru a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cytuno ar y cynigion mewn egwyddor.
- 4.14. Mae'r cynigion wedi'u llywio gan, a'u datblygu gydag ymgysylltiad llawn y grwpiau budd-ddeiliaid allweddol hyn.

Ystyriaethau cyfreithiol

- 4.15. Mae awdurdodau lleol unigol yn parhau i fod yn gyfrifol yn gyfreithiol ac atebol am ddarparu gwasanaethau mabwysiadu a maethu. Mewn perthynas â gwasanaeth mabwysiadu, mae'r darpariaethau cyfreithiol ag amlinellir isod yn gofyn bod cyfrifoldebau mabwysiadu yn cael eu darparu yn unol â'r trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- 4.16. Mae'r sail gyfreithiol sy'n tanategu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi'i gynnwys yn adran 3A o'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 [a gafodd ei fewnosod gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

2014] a Chyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn gosod, mewn manylder, y disgwyliadau ar awdurdodau lleol i gydweithio ar lefel rhanbarthol a cenedlaethol i ddarparu a gwella gwasanaethau mabwysiadu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys darpariaethau sy'n creu mecanwaith penodol sy'n rhoi effaith cyfreithiol gwirioneddol i gydweithrediad ar lefel cenedlaethol neu i'r cytundeb gydag un awdurdod lleol i gynnal y swyddogaethau cenedlaethol. Bydd y Cyd-bwyllgor, a'r Cytundeb fydd yn mynd gydag ef, yn rhoi hwn ar sail gyfreithiol ffurfiol yn ogystal â darparu mwy o eglurder a phendantwydd i'r holl awdurdodau a CLILC yn ogystal â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

- 4.17. Nid oes unrhyw reoliadau yn tanategu Maethu Cymru felly bydd y Cyd-bwyllgor yn rhoi'r sail ar gyfer y cydweithrediad sydd ei angen fel ei fod yn gallu gweithredu fel y cynigiwyd.

Craffu Lleol a Goruchwylio

- 4.18. Bydd gan bob awdurdod lleol aelod sy'n pleidleisio o'u Gweithrediad Etholedig (Cabinet) ar y Cyd-bwyllgor. Gall bob Cyngor galw unrhyw benderfyniadau'r Cyd-bwyllgor i mewn yn unol â darpariaethau trosolwg a chraffu cyfansoddiad y Cyngor hwnnw. Os yw unrhyw benderfyniadau'r Cyd-bwyllgor yn amodol ar alw i mewn gan Gyngor, ni ddylai'r Cyd-bwyllgor gymryd unrhyw gamau i roi'r penderfyniad hwnnw ar waith oni bai bod y broses galw i mewn yn cadarnhau'r penderfyniad.
- 4.19. Fel rhan o oruchwylio llywodraeth leol bydd Gwasanaethau Addysg a Phlant yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, a darpariaeth gwasanaethau rhanbarthol a lleol, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Bydd y dull hwn yn darparu craffu lleol ar effaith a pherfformiad gwasanaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Mae gwella gwaith gwasanaethau mabwysiadu a maethu yn bodloni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae cyllid ar gyfer y trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth ganolog / cenedlaethol a galluogi, yn cael ei ddarparu gan CLILC drwy haen uchaf y Grant Cynnal Refeniw a chyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Fel ag amlinellwyd yn 1.12 mae posibilrwydd o bwysau cyllid unwaith fydd y Grant Llywodraeth Cymru yn dod i ben ar 31.3.23. Mae'r angen am strategaeth ymadael a ariennir wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru i alluogi gwasanaeth cyson y tu hwnt i gyfnod y grant.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae Asesiad o Effaith ar Les wedi ei gynnal (Atodiad 4). Sgoriodd yr Asesiad 3 allan o 4 seren. Yn gyffredinol, bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod cynnal a'r corff atebol felly nhw fydd yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor gyda'r gweinyddu angenrheidiol (fel gwybodaeth datganiad o gyfrifon a gofynion archwilio). Rydym yn croesawu bod LLC yn ariannu'r gweithgaredd i ddechrau, ond bydd angen i'r gwasanaeth fonitro'r sefyllfa ariannol barhaus ac adrodd unrhyw faterion a cheisiadau am arian os bo angen drwy'r prosesau gosod y gyllideb arferol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r Cytundeb ar y Cyd yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol yn gyfreithiol ac yn atebol am ddarparu gwasanaethau mabwysiadu a maethu. Mae'r risgiau sy'n cyd-fynd â'r awdurdod, sydd angen cynnal gwneud penderfyniadau priodol, llywodraethu a chraffu yn cael eu lliniaru drwy'r trefniadau a amlinellir ym mharagraff 4.18 a 4.19 o'r adroddiad hwn. Yn gryno, y rhain yw:

- Bydd gan aelod o'r Cabinet hawliau pleidleisio ar y Cyd-bwyllgor.
- Mae penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor yn amodol ar brosesau 'galw i mewn' awdurdod lleol Sir Ddinbych.
- Cynnal adroddiadau blynyddol ar waith y trefniadau Cenedlaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud dan a101 a 102 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac a19 a 20 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.